








# DIOGELWCH CARTREFI: SUT MAE GWELLA GWAITH TRYDAN MEWN CARTREFI YN NEWID BYWYDAU YNG NGHYMRU

Partneriaeth rhwng
Care & Repair Cymru and
Electrical Safety First

Electrical Safety First

Care & Repair Cymru

# CRYNODEB GWEITHREDOL

**Mae gwaith Electrical Safety First a Gofal a Thrwsio yn ddi-os yn arbed bywydau a hefyd gartrefi.**

Dyna pam fy mod mor falch i gefnogi eu gwaith. Mae llawer o bobl yn aml yn credu os ydi pethau yn dal i weithio yna nad oes dim o'i le, nes bod tân trydanol yn cynnau. Nid oes trydanwr wedi edrych ar system drydan rhai cartrefi am ddegawdau lawer.

Mae pobl hŷn yn tueddu i fyw mewn cartrefi oerach ac i fod â gwaith trydan hŷn. Er y bydd eu landlord yn cynnal a chadw cartrefi'r rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol, bydd y rhai sy'n byw mewn eiddo perchnogaeth breifat yn gyfrifol am gynnal a chadw eu gwaith trydan eu hunain.

> Mae perygl a all fod yn risg i iechyd pobl yn tua **1 ym mhob 5 annedd** yng Nghymru.

Rwy'n falch iawn fod Gofal a Thrwsio ac Electrial Safety First wedi creu cynllun Grant Gwella Trydan i helpu pobl hŷn. Mae'r cynllun yn rhoi sylw i bwysigrwydd Gofal a Thrwsio fel cynllun ymweld â chartrefi. Yn bwysig gall y gwiriadau cartrefi iach gan Gofal a Thrwsio ddatgelu gwahanol fathau o beryglon yn cynnwys peryglon trydanol.



**Mike Hedges AS**
Aelod o'r Senedd dros Ddwyrain Abertawe

## ELECTRICAL SAFETY FIRST

Rwy'n falch iawn fod y cyllid a ddarparwyd gan Electrical Safety First wedi gwneud cymaint o wahaniaeth i fywydau'r rhai a gafodd gymorth. Mae diogelwch trydan yn hanfodol ac wrth i drydan ddod yn gynyddol yn rhan o'n bywydau, mae'n bwysicach nag erioed fod y gwaith trydan yn ein cartrefi yn ddiogel. Mae'r henoed a'r anabl mewn risg neilltuol ac yn aml yn methu talu am welliannau felly mae'n rhagorol gweld y cyllid yn cael ei ddefnyddio er budd a'u helpu i deimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi.



**Lesley Rudd**
Prif Swyddog Gweithredol Electrical Safety First

## GOFAL A THRWSIO

Rydym yn falch i ddod â'r adroddiad hwn i sylw rhanddeiliaid a gwneuthurwyr polisi yng Nghymru. Mae ein partneriaeth gyda Electrical Safety First wedi bod yn rhaff fywyd i lawer o'r bobl hŷn a gefnogwn, a fyddai – fel y dengys yr adroddiad hwn – fel arall yn cael eu gadael yn byw mewn cartrefi heb fod yn ddiogel, yn aml heb wres na dŵr twym, oherwydd gwaith trydan gwael yn eu cartref a dim modd i'w gwella. Buom yn galw ers amser maith am grant rhwyd ddiogelwch i wella cyflwr tai pobl hŷn ledled Cymru. Mae diogelwch trydan yn aml yn ddarn hanfodol ond a gaiff yn aml ei ddiystyru o'r pos wrth sicrhau y gall pobl hŷn ledled Cymru fyw'n ddiogel, annibynnol a gydag urddas yn eu cartrefi.



**Chris Jones**
Prif Swyddog Gweithredol Care & Repair Cymru

Electrical Safety First

Care & Repair Cymru

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Pobl hŷn, cartrefi hŷn, gwaith trydan hŷn** | **5** |
| **Cydweithio rhwng Gofal a Thrwsio ac Electrical Safety First** | **7** |
| **Y defnydd o'r Cynllun Grant Gwella Trydan** | **8** |
| **Canfyddiadau o weinyddu'r Gronfa** | **10** |
| • Rhaff fywyd lle cafodd cymorth ei dorri | 10 |
| • Cyflymder y gronfa | 11 |
| • Problem gudd | 12 |
| **Effaith gwaith trydan gwael ar fyw diogel, annibynnol** | **13** |
| • Damweiniau yn y cartref | 13 |
| • Effaith ar iechyd meddwl ac ansawdd bywyd | 18 |
| • Cartrefi oer | 21 |
| • Cartrefi gwledig | 24 |
| • Symud i deleofal | 24 |
| • Cefnogi pobl hŷn sydd â chyflyrau iechyd | 24 |
| **Effaith ghwaith trydan gwael ar nodau polisi ehangach** | **26** |
| • Tai digonol | 26 |
| • Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 26 |
| • Datgarboneiddio cartrefi Cymru | 27 |
| • Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 27 |
| **Argymhellion polisi** | **28** |

# POBL HŶN, CARTREFI HŶN, GWAITH TRYDAN HŶN

**Gall pobl hŷn sy'n byw yn y sector tai sy'n eiddo i berchen-feddianwyr yng Nghymru ei chael yn anodd cynnal a chadw cyflwr eu cartrefi. Mae gan tua 1 ym mhob 5 cartref yng Nghymru berygl Categori 1, yn golygu perygl a all achosi risg i iechyd dynol.**

Yng Nghymru, mae'r System Graddio Iechyd a Diogelwch Tai yn cynnwys siociau trydan, tanau, llosgiadau a sgaldiadau fel canlyniad i ddod i gysylltiad â thrydan. Mae tua hanner y damweiniau gyda thrydan yn y cartrefi yn arwain at losgiadau yn ogystal â sioc.

## Pobl hŷn

Gall gwaith trwsio i gartrefi, yn cynnwys gwaith trwsio trydanol, fod allan o gyrraedd pobl hŷn nad oes ganddynt fodd naill ai i dalu neu gael mynediad i wybodaeth ar sut i fynd ati i wneud gwelliannau.

**Mae bron 20%** o'r holl bobl hŷn yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol.

**Mae tua 80,000** o bobl hŷn yng Nghymru sy'n gymwys am gredyd pensiwn ond nad ydynt yn eu hawlio.

**Mae gan bron 1 mewn 5** o bobl 55+ oed lai na £1000 mewn cynilion.

Mae diffyg mynediad i'r rhyngrwyd i chwilio am gyngor neu fasnachwyr gydag enw da, pryderon am sgamiau, llanast ac annibendodyn ogystal â heriau gwybyddol a chorfforol yn golygu y gall fod angen cymorth ychwanegol i gael gwaith wedi'i wneud yn y cartref.

**Bydd tua 50,000** o bobl 65 oed a throsodd yng Nghymru yn byw gyda dementia erbyn 2050.

Amcangyfrifodd Partneriaeth Cymru yn Erbyn Sgamiau fod pobl hŷn sy'n cael eu twyllo gan sgamiau **yn colli tua £1,200** yr un oherwydd sgamiau yn ystod eu hoes.

Canfu'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol fod **69% o oedolion** 75 oed neu drosodd wedi dangos un neu fwy o nodweddion y gallent fod yn fregus.



# Cartrefi hŷn a gwaith trydan hŷn

Nid oes gan Gymru bolisi cenedlaethol y gellir ei orfodi ar gyfer ansawdd cartrefi yn y sector perchen-feddiannwr, yn wahanol i'r sector tai cymdeithasol drwy Safon Ansawdd Tai Cymru neu yn y sector rhent preifat drwy Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru (2016).

Mae hyn yn golygu nad yw data ar gyflwr cartrefi, yn cynnwys ansawdd eu gwaith trydan, ar gael yn rhwydd. Cynhaliwyd yr Arolwg Cyflwr Tai Cymru diweddaraf yn 2017, gan olygu fod y data sydd ar gael yn hen ac wedi'i gyhoeddi cyn digwyddiadau annisgwyl yn cynnwys Covid-19, cynnydd mewn prisiau ynni a'r argyfwng costau byw. Nid yw'n manylu diogelwch neu gyflwr gwaith trydan.

Mae tua 80% o bobl hŷn yng Nghymru yn berchen eu cartrefi eu hunain. Mae Gofal a Thrwsio yn aml yn gweithio mewn tai lle na chafodd y gwaith trydan ei gyffwrdd am ddegawdau. Canfu ymchwil allweddol rhwng Electrical Safety First a Phrifysgol Abertawe:

- mai pobl hŷn yw tua traean o'r rhai bawb a gaiff eu hanafu neu eu lladd oherwydd tanau mewn cartrefi
- bod pobl dros 80 oed o leiaf bedair gwaith yn fwy tebygol nag unrhyw grŵp oedran arall o gael eu hanafu neu eu lladd mewn tân trydanol.

Cymru sydd â'r stoc tai hynaf yn y Deyrnas Unedig a hefyd ar draws Gorllewin Ewrop gyda 26% o'r tai wedi eu hadeiladu cyn 1919. Yn flaenorol gallai grantiau trwsio gan awdurdodau lleol dalu am beth gwaith trydanol, ond nid yw'r grantiau hyn wedi bod ar gael yn arferol am rai blynyddoedd.

Mae cost uchel gwaith trwsio trydanol ynghyd â'r heriau newydd sy'n wynebu pobl hŷn wrth gael gwaith wedi'i wneud yn y cartref yn golygu yn aml na chaiff gwaith atal a diogelwch trydan ei wneud.

> **"Nid dim ond ei fod yn rhywbeth sy'n beryglus ynddo ei hun, mae hefyd yn effeithio ar ansawdd bywyd pobl."**
>
> Gweithiwr Achos, Caerdydd

# CYDWEITHIO RHWNG GOFAL A THRWSIO AC ELECTRICAL SAFETY FIRST

**Bob dydd mae Gofal a Thrwsio yn gweld pobl hŷn ledled Cymru sy'n byw mewn cartrefi mewn cyflwr gwael. Gan gydweithio, mae Gofal a Thrwsio ac Electrical Safety First wedi cyd-gynhyrchu Cynllun Grant Gwella Trydan pwrpasol ar gyfer cleientiaid Gofal a Thrwsio heb unrhyw fodd i dalu am wella cyflwr a diogelwch y gwaith trydan yn eu cartref.**

Roedd y Gronfa ar gael i weithwyr achos Gofal a Thrwsio dros gyfnod 5-mis ar gyfer gwaith cysylltiedig â thrydan ar gyfer perchnogion cartrefi a thenantiaid sector preifat lle'r oedd achosion o dai mewn cyflwr gwael a pheryglus a heb unrhyw fodd o dalu am y gwaith eu hunain. Yng nghyd-destun Gofal a Thrwsio, mae 'rhent preifat' yn aml yn cyfeirio at gartrefi lle mae aelod o deulu'r cleient, yn aml fab neu ferch, yn berchen yr eiddo yn hytrach na pherthynas ffurfiol tenant-landlord.

**Cafodd y Cynllun Grant Gwella Trydan ei gynllunio i helpu pobl hŷn drwy ddarparu hyd at £1,000 tuag at:**

- Cyfraniad at gost ailweirio trydanol llawn neu rannol
- Uwchraddio daearu, bondio, diogelu RCD ac unedau defnyddwyr.
- Trwsio neu osod twymwyr tanddwr a gwresogyddion dŵr newydd.
- Trwsio neu osod cawodydd trydan newydd.
- Trwsio neu osod goleuadau newydd am resymau diogelwch.
- Gosod ategion newydd yn rhai sydd wedi torri tebyg i switshis a socedi golau.
- Profion Cyfarpar Cludadwy
- Arolygiadau cyfnodol

I fod yn gymwys, mae'n rhaid i'r sawl sy'n derbyn fod yn berchennog cartref neu fod yn rhentu'n breifat 60 oed neu drosodd, neu 50+ os yn byw gyda nam synhwyraidd sydd hefyd wedi cyflawni un neu fwy o'r meini prawf isod:

**Bod yn derbyn pensiwn gwladol yn unig, heb unrhyw ffynhonnell arall o incwm neu gynilion;**

**Derbyn budd-daliadau prawf modd;**

**Derbyn budd-dal anabledd;**

**Bod ag incwm aelwyd net isel; neu**

**Bod ag arbedion aelwyd o lai na £16,000.**

# Y DEFNYDD O'R CYNLLUN GRANT GWELLA TRYDAN


**Roedd y gronfa ar gael i gleientiaid Gofal a Thrwsio 60+ oed neu 50+ oed os oeddent yn byw gyda cholled synhwyraidd. O'r ceisiadau a gafwyd, gwrthodwyd dau oherwydd nad oeddent yn cyflawni'r meini prawf ar gyfer cymhwyster.**

Oedran cyfartalog aelwydydd a gafodd fynediad i'r gronfa oedd 74, a roedd yr aelwyd hynaf yn 92 oed. Roedd llawer o'r bobl y gwnaeth y Gronfa eu helpu yn byw gyda heriau eraill, a hefyd wedi cyflwyno i Gofal a Thrwsio gyda phroblem wahanol i ddechrau:

> **"Dim oherwydd y broblem gyda thrydan y daethon nhw atom yn y lle cyntaf. Ac rwy'n credu fod hynny eitha pwysig mewn gwirionedd oherwydd menywod oedd yr holl gleientiaid, roeddent yn byw ar ben eu hunain, roedd ganddynt i gyd golled synhwyraidd, problemau symudedd, problemau iechyd eitha difrifol ac roedd ganddynt i gyd waith trwsio trydanol a thai oedd angen eu gwneud."**
>
> Gweithiwr Achos, Canolbarth Cymru, a ddefnyddiodd y gronfa yn llwyddiannus nifer o weithiau.




### Oed Derbynwr y Cynllun




### Rhywedd Derbynwyr y Cynllun




## Rhesymau am Gymhwyster i'r Cynllun





Roedd bron pob cleient yn diwallu mwy nag un maen prawf cymhwyster. Nifer cyfartalog y meini prawf cymhwyster a gyflawnwyd oedd tri. Roedd bron yr holl gleientiaid yn byw mewn tŷ heb fawr o gynilion, ac roedd mwy na thri chwarter wedi cofrestru yn anabl.

## Gwaith a gyllidwyd gan y Cynllun Grant Gwelliannau Trydanol




Cafodd y cynllun ceisiadau ar gyfer pob math o waith oedd ar gael. Cafodd rhai nifer o bethau wedi eu gwneud tebyg i uwchraddio unedau defnyddwyr a gosod socedi trydanol ychwanegol a switshis newydd, gan ddangos yr hyblygrwydd o fewn cynllun i ateb anghenion llawn y cleient yn y ffordd orau.

## Lledaeniad daearyddol derbynwyr y cynllun




Roedd y Cynllun ar gael ledled Cymru i unrhyw gleient Gofal a Thrwsio oedd yn cyflawni'r meini prawf. Defnyddiwyd y Cynllun mewn nifer o osodiadau gwledig a threfol, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig yn Asiantaeth Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn ac Asiantaeth Gofal a Thrwsio Powys, ac Asiantaeth Gofal a Thrwsio Caerdydd a'r Fro sy'n rhoi gwasanaeth i'r boblogaeth fwyaf o bobl hŷn ar draws cyfuniad o ardaloedd gwledig-trefol.

# CANFYDDIADAU O WEINYDDU'R GRONFA

## Rhaff fywyd lle cafodd cymorth ei dorri

Dywedodd nifer o'r gweithwyr achos y gwnaethom eu cyfweld ei bod yn anodd cael mynediad i botiau o arian dyngarol ar gyfer gwaith i gartrefi. Fe wnaethant sôn am newid mewn agweddau tuag at yr hyn yr oedd cyllidwyr yn fodlon ei ariannu, gyda llai yn dewis ariannu gwaith trwsio.

Gall diffyg datrysiadau olygu fod yn rhaid i'n gweithwyr achos gyflwyno dewisiadau anodd i gleientiaid:

> **"Cawsom achosion lle mae rhywun angen i dri neu bedwar peth gael eu gwneud yn y tŷ ac mae'n achos o ddweud wrthynt, wel, efallai y medrem gael cyllid i chi, ond os ydyn ni, dim ond ar gyfer gwneud un neu efallai ddau beth fydd hynny. Felly rydych chi'n mynd i orfod dewis."**
>
> Gweithiwr Achos, De Cymru

> **"Chi a fi, rydyn ni'n gweithio, gallwn geisio neilltuo arian ar gyfer gwaith trwsio. Ond pan ydych chi ar incwm sefydlog a heb unrhyw arian wrth gefn, rydych chi mewn math o dwll os ydych yn un o'n cleientiaid. Ac mae'n golygu nad yw gwaith trwsio yn cael ei wneud os nad ydyn ni'n cael llawer o gyllid neu gyllid dyngarol sydd eto heb fod yn rhwydd nac yn gyflym."**
>
> Swyddog Ynni Cartref, De Cymru

Mae newidiadau i batrymau gwaith hefyd wedi gwneud gwahaniaeth mawr. Gyda Gwasanaeth Gwladol wedi dod i ben yn 1958, mae gennym yn awr garfan o bobl hŷn 'iau' nad ydynt yn gymwys am grantiau lluoedd arfog sydd yn hanesyddol wedi bod yn rhaff fywyd i gyllido gwaith a fyddai fel arall yn mynd heb ei ddatrys.

Bu gan lawer o'r bobl hŷn y gwnaethom eu cefnogi drwy'r gronfa yrfaoedd amrywiol, gan olygu nad oeddent yn gymwys am gronfeydd elusennol galwedigaethol penodol oedd angen blynyddoedd o wasanaeth – a dalenni cyflog i brofi hynny!

> **"Y peth cyntaf mae pobl yn tueddu i wneud ar ôl ymddeol yw taflu eu holl waith papur. Ac mae llawer o'r cronfeydd hyn yn gofyn am dystiolaeth eich bod wedi gweithio yno. Felly maen nhw yn gofyn am bapurau, maen nhw yn gofyn am ffurflenni P60 a P45, ac nid yw llawer o bobl yn cadw hynny."**
>
> Gweithiwr Achos, De Cymru





## Cyflymder y Gronfa

Gweithredodd y gronfa fel cronfa argyfwng i aelwydydd mewn angen brys. Roedd yr angen i gefnogi ein cleientiaid yn gyflym i sicrhau nad oedd problemau yn gwaethygu yn amlwg yn yr holl geisiadau i'r gronfa. Er bod gweithwyr achos yn tynnu sylw at y dull oedd yn aml yn heriol a darniog i wneud cais am gyllid dyngarol, fe wnaethant ganmol y bartneriaeth a adeiladwyd ar ymddiriedaeth rhwng Gofal a Thrwsio ac Electrical Safety First a olygai fod aelwydydd yn cael yr help roeddent ei angen pan oeddent angen hynny:

> **"Mae'r ffurflen gais yn eitha syml. Does gennym ni ddim amser i fod yn llenwi popeth a thicio drwy'r holl flychau a neidio drwy'r holl rwystrau ac eisiau'r holl wybodaeth yma. Gyda'r cynllun Grant Gwella Trydan rydych chi'n meddwl 'iawn, fe alla i wneud hynny yn gyflym a gallaf wneud y darn yna'. Ac wedyn gallaf ganolbwyntio ar geisio mynd i'r afael â'r pethau mawr eraill yma a all fynd â llawer o'n hamser."**
>
> Gweithiwr Achos, Canolbarth Cymru


Yn aml roedd cyflymder y gronfa yn hanfodol i helpu cyflawni gofynion amser contractwyr neu wasanaethau eraill:

> **"Yr hyn rydyn ni'n ei weld yw weithiau fod cyllidwyr eraill yn rhoi cyfyngiad amser ar waith. Maen nhw yn dweud, 'wel, os na chaiff ei wneud o fewn y cyfnod yma, mae'n rhaid i ni ganslo'r cais ac fe fydd yn rhaid i'r unigolyn wneud cais arall', nad yw'n ei gwneud yn haws oherwydd wedyn rydych chi yn erbyn y cloc."**
>
> Gweithiwr Achos, De Cymru

# Problem gudd

Mae'r Cynllun Grant Gwella Trydan yn dangos pwysigrwydd bod Gofal a Thrwsio yn wasanaeth ymweld â chartrefi. Tra bod rhai cleientiaid a gafodd fynediad i'r gronfa wedi cysylltu'n benodol â Gofal a Thrwsio am waith trwsio trydanol - yn fwyaf cyffredin pan fod cawod drydan wedi peidio gweithio – ar gyfer pob achos lle roedd hyn yn wir, roedd llawer mwy lle mai nid diogelwch trydanol oedd y broblem a gyflwynwyd gyntaf.

Mae ein gwiriadau Cartrefi Iach yn wiriad trwyadl o gartrefi ar gyfer gwahanol fathau o beryglon, yn cynnwys gwaith trydan. Yn aml, roedd gwaith trwsio diogelwch trydan yn broblem nad oedd eu cleientiaid wedi paratoi ar ei chyfer neu nad oeddent yn sylweddoli ei bod yn broblem.



**"Rwy'n credu mai un o'r pethau pwysig am ein gwasanaethau yw ein bod yn gwneud ymweliadau cartref ... oedd, roedd soced y plwg yn hongian o'r wal a doedd un ddim yn gweithio ac roedd yn methu gweld oherwydd nad oedd y goleuadau yn gweithio yn yr ystafell fyw neu yn yr ystafell ymolchi. Ond dyna sut yr oedd wedi bod yn byw. Felly fyddai hi ddim wedi meddwl am ddweud wrthyf fod hyn yn broblem oherwydd ei bod wedi arfer cymaint â'r sefyllfa. Dyna sut mae'n nhw'n byw."**

Gweithiwr Achos, Canolbarth Cymru

**"Nid yw pobl yn deall oherwydd eu bod nhw'n meddwl fod y trydan yn gweithio a phopeth yn gweithio'n iawn, ei fod yn ddiogel. Ond yn yr oes yma, gallwch ddod ar draws pobl sydd heb gyffwrdd â'u trydan am 40-50 blynedd weithiau, sydd yn frawychus."**

Gweithiwr Achos, Gogledd Orllewin Cymru

**"Yn fy mhrofiad i, mae'n ryw fath o 'unwaith mae wedi mynd, mae wedi mynd'. Ac yna dyw'r arian ddim ganddyn nhw i'w drwsio. Doedden nhw ddim wedi ei weld yn dod oherwydd nad yw'n rhywbeth y mae pobl yn meddwl amdano fel arfer. Maent yn plygio rhywbeth i mewn, ac mae'n gweithio ac yna pan mae'n mynd ... maent yn dod atom ni yn gofyn am help."**

Gweithiwr Achos, De Cymru

Mae llwyddiant y bartneriaeth rhwng Gofal a Thrwsio ac Electrical Safety First yn arwydd o rym cydweithredu rhwng cyrff trydydd sector. Mae'r cynllun Grant Gwella Trydan yn ddatrysiad i broblem uniongyrchol lle'n flaenorol y byddai cyrff statudol wedi rhoi cymorth i alluogi aelwydydd i gadw ar flaen cynnal a chadw yn eu cartrefi cyn i broblemau oed a thraul waethygu i ddod yn gyflwr gwael a pheryglus.

# EFFAITH GWAITH TRYDAN GWAEL AR FYW DIOGEL, ANNIBYNNOL

**Mae cleientiaid Gofal a Thrwsio yn cysylltu gyda'r gwasanaeth gydag anghenion cynyddol gymhleth, lle mae gwaith trydan anniogel yn rhan o broblem ehangach am gyflwr, cynhesrwydd neu hygyrchedd tai. Hwylusodd y gronfa waith trydan oedd yn galluogi gwaith arall i fynd yn ei flaen i wneud y cartref yn fwy diogel ac addas ar gyfer byw annibynnol.**

## Damweiniau yn y cartref

Fe wnaeth y gronfa gefnogi diogelwch trydanol drwy liniaru problemau yn ymwneud â gwaith trydan peryglus a gwallus. Fodd bynnag, cyfrannodd nifer o'r mathau o waith oedd yn gymwys dan y Gronfa at wella diogelwch cartrefi tu hwnt i ddim ond safon y gwaith trydan.

Dynododd Gwiriad Cartrefi Iach Gofal a Thrwsio y gallai gwifrau'n llusgo a goleuadau gwael gyfrannu at ddamwain neu gwymp yn y cartref ac arwain at i berson hŷn fethu byw'n annibynnol adref. Defnyddiwyd y gronfa i sicrhau fod weirio bob amser i fyny i'r safon a gosod socedi trydan ychwanegol mewn ystafelloedd a ddefnyddiwyd gan gleientiaid Gofal a Thrwsio i atal damweiniau mewn cartrefi:

> **"Roedd yn byw y rhan fwyaf o'r dydd yn yr ychydig ystafelloedd hynny. Felly, iddi hi, roedd ailweirio llawn yn bwysig oherwydd cyn hynny roedd hi'n methu rhoi dyfeisiau mewn plwg i edrych ar y teledu, pethau felly, a doedd o ddim yn diogel iddi fod yn gorlwytho'r un soced honno. Nid dim ond rhywbeth yn beryglus ynddo ei hun, mae'n effeithio ar ansawdd bywyd pobl hefyd."**
>
> Gweithiwr Achos, De Cymru

> **"Yn aml iawn mae'r person hŷn yn gorfod ffeirio plygiau ac wedyn maen nhw'n gorfod plygu lawn neu fynd i le chwithig oherwydd mai dim ond un neu ddwy soced sydd ganddyn nhw ar y cebl ymestyn ond efallai fod pedwar darn o offer yn defnyddio hynny. Felly mae'n rhaid iddyn nhw ffeirio a chyfnewid."**
>
> Swyddog Ynni Cartref, De Cymru

Mae pobl hŷn mewn mwy o risg o syrthio sy'n arwain at broblemau iechyd mawr, anafiadau neu golli annibyniaeth hirdymor. Yng Nghymru, bydd 132,000 o bobl hŷn yn syrthio fwy nag unwaith yn eu cartref. Ar ôl syrthio unwaith, mae tua hanner yn debyg o syrthio eto.

Soniodd gweithwyr achos a wnaeth gais am y gronfa ar ran cleient Gofal a Thrwsio am bobl hŷn yn byw mewn dim ond un ystafell lle'r oedd trydan yn gweithio, achosion o syrthio dros wifrau'n llusgo a phobl ofn defnyddoi'r ystafell ymolchi yn y nos oherwydd gwaith trydan gwael yn y cartref.

# ASTUDIAETH ACHOS

**Ardal:** Caerdydd

**Oed:** 76

**Meini prawf cymhwyster:**

**Wedi cofrestru'n anabl; incwm isel; cynilion aelwyd isel**

## Manylion:

Mae Mr a Mrs Morgan angen ail-weirio eu holl gartref. Oherwydd cyflwr gwael y weirio, dim ond yn y gegin maent yn medru defnyddio offer trydan.

Mae'r diffyg pŵer yn gwneud bywyd yn anodd iawn i Mrs Morgan yn neilltuol, sydd angen chwistrelliad mewnwythiennol bob dydd gan nad yw ei chorff yn amsugno maeth o fwyd yn iawn. Yn aml mae Mrs Morgan yn gorfod ceisio chwistrellu ei hun yn y tywyllwch, ac mae'n cael hynny'n anodd iawn, neu fynd i'r ysbyty bob dydd i rywun arall ei wneud drosti. Mae hefyd wedi bod yn aros yn yr ysbyty nifer o weithiau oherwydd anawsterau yn chwistrellu ei hun.

Nid oes gan Mr a Mrs Morgan wres nwy, felly i gadw'n gynnes maent yn defnyddio gwifren ymestyn i osod plyg ar gyfer gwresogydd trydan yn y soced sydd yn gweithio yn y gegin a symud y gwresogydd o amgylch y llawr daear. Mae gan y ddau broblemau symud, ac mae'r wifren yn llusgo yn creu perygl baglu.

Nid oes ganddynt unrhyw olau pan maent yn defnyddio'r ystafell ymolchi gan nad oes unrhyw ffenestri yn yr ystafell. Fe wnaethant ddweud wrth Gofal a Thrwsio eu bod yn bryderus iawn am ddefnyddio'r ystafell ymolchi yn y nos rhag ofn eu bod yn baglu yn y tywyllwch. Mae'r sefyllfa yn achosi llawer o ofid i Mrs Morgan a bu'n colli cwsg oherwydd hynny. Fe wnaethant ddweud wrth Gofal a Thrwsio nad ydynt yn teimlo'n ddiogel a saff yn eu cartref eu hunain.



## Canlyniad:

Cafodd gweithiwr achos Gofal a Thrwsio ddyfynbris am ailweirio llawn, ceblau ychwanegol a chylchedau newydd ar gyfer socedi, goleuadau a'r ffwrn. Roedd cyfanswm y dyfynbris yn £5,100 a chyfrannodd y Gronfa £1,000 at hynny gyda gweddill yr arian yn dod o ffynonellau ychwanegol. Bydd yr ailweirio yn golygu y gall Mrs Morgan ei thrin ei hun yn ddiogel yn ei chartref, yn ogystal â gostwng risg syrthio, gan olygu nag yw'n rhaid iddi fynd i'r ysbyty mor aml a gwella annibyniaeth y cwpl.

# ASTUDIAETH ACHOS

**Ardal:** Powys

**Oed:** 74

**Meini Prawf Cymhwyster:**

**Dim ond yn derbyn y pensiwn gwladol, heb unrhyw ffynhonnell arall o incwm; wedi cofrestru'n anabl; cynilion isel.**


## Manylion:

Mae Mrs Evans yn 74 oed ac yn byw ar ben ei hun. Mae ganddi ddirywiad maciwlaidd a nam difrifol ar ei golwg. Nid oes triniaeth ar gael i wella ei golwg. Mae gan Mrs Evans hefyd nam ar ei chlyw, arthritis, symudedd is ac nid yw'n medru darllen nac ysgrifennu.

Oherwydd y nam difrifol ar ei golwg, mae Mrs Evans yn ei chael yn anodd gweld yn y gegin i baratoi bwyd a thywallt ei thegell yn ddiogel. Nid oes gan Mrs Evans unrhyw wres yn ei chartref heblaw rheiddiadur wedi'i lenwi gydag olew yn y gegin, lle mae'n treulio'r rhan fwyaf o'i hamser.

Dim ond un soced plwg sy'n gweithio yn y gegin ac mae hwnnw wedi cracio a gydag olion llosgi sy'n golygu nad yw'n ddiogel ei ddefnyddio. Nid yw soced y plwg wrth ymyl y microdon yn gweithio. Mae soced y plwg yn y cyntedd yn hongian oddi ar y wal ac nid yw'n ddiogel.

Nid yw'r golau yn ystafell fyw a thoiled lawr grisiau Mrs Evans yn gweithio. Oherwydd gallu symud cyfyngedig a cholli golwg difrifol Mrs Evans, mae mewn risg o syrthio ac mae wedi syrthio'n flaenorol. Mae'n hanfodol cael goleuadau newydd yn yr ystafelloedd yma i gadw Mrs Evans yn ddiogel. Unig incwm Mrs Evans yw ei Phensiwn Gwladol o £93.60 yr wythnos. Nid oes gan Mrs Evans unrhyw gynilion.





## Canlyniad:

Mae Mrs Evans wedi manteisio o gael goleuadau newydd gyda golau baten LED deuol newydd i wella'r golau a'i gwneud yn rhwyddach iddi weld. Yn ogystal â goleuadau gwell, mae Mrs Evans hefyd wedi cael canllawiau tu mewn a thu allan i'w chartref i'w helpu i symud yn fwy diogel o amgylch y tŷ. Nid oedd y gyllideb ENABLE yn ddigon ar gyfer hyn i gyd gan olygu fod y Cynllun Grant Gwella Trydan wedi rhoi rhaff fywyd hanfodol gan nad oedd ffynonellau cyllid eraill ar gael.

Gwnaeth Gweithiwr Achos Gofal a Thrwsio hefyd gais llwyddiannus am Gredyd Pensiwn a Lwfans Gweini i gynyddu incwm Mrs Evans a'i gwneud yn rhwyddach iddi reoli ei gwres. Gweithiodd Gofal a Thrwsio gyda phartneriaid ychwanegol, Cymru Gynnes, i wella'r gwresogi yn ei chartref, a gwnaeth gais am Grant Cyfleusterau i'r Anabl drwy awdurdod lleol am ystafell ymolchi hygyrch.



**"Roedd yn gwisgo tair côt y tro cyntaf yr es i'w gweld. Pan es yno i lenwi ffurflen lwfans gweini, wel, fel y gwyddoch chi, mae hynny'n cymryd tua awr a hanner, dwy awr. Roedd mor oer yno fel nad oeddwn prin yn medru dal y feiro ... Rwy'n gwybod nad dim ond y gwaith trydan yw hynny ond pan roddwch chi bopeth at ei gilydd, pan es i'w gweld yr wythnos ddiwethaf i lenwi'r cais am Grant Cyfleusterau i'r Anabl, roedd y gwahaniaeth corfforol ynddi, sut mae'n edrych, sut mae'n cyflwyno ei hun, gallwch weld y gwahaniaeth, roedd yn amlwg."**

Gweithiwr Achos Gofal a Thrwsio
Mrs Evans

# Yr effaith ar iechyd meddwl ac ansawdd bywyd

Mae'n amlwg fod gan ddiogelwch trydan ddylanwad mawr ar ba mor ddiogel a hapus mae pobl hŷn yn teimlo yn eu cartrefi.

- Dywedodd 14% o gleientiaid Gofal a Thrwsio oedd wedi defnyddio'r Cynllun Grant Gwella Trydan fod eu hapusrwydd gartref yn 1 allan o 10.
- Dywedodd 59% nad oeddent yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi. O weddill y gleientiaid, credai 91% y gallai fod gwelliannau pellach i ddiogelwch eu cartrefi.
- Dim ond 37% ddywedodd eu bod yn teimlo'n hyderus a saff yn eu cartrefi.

Soniodd gweithwyr achos am gleientiaid yn byw mewn un ystafell yn unig yn eu cartref, neu ofnau am ymolchi a golchi, a damweiniau yn y cartref oherwydd problemau gyda diogelwch trydan.

**"Roedd blwch trydanol hen yng nghartref y cleientiaid oedd wedi bod yn tripio gryn dipyn ac roedd wedi talu i drydanwr ddod allan ddwywaith. Ac roedd hi'n ypset iawn gyda fi yn dweud na fedrai fforddio dal i dalu i drydanwr ddod allan. A dyna pryd y meddyliais y byddai'r Cynllun Grant Gwella Trydan yn berffaith yn y sefyllfa yma oherwydd ei fod yn cael effaith eitha drwg ar ei hiechyd meddwl."**

Gweithiwr Achos, Gogledd Ddwyrain Cymru



**"Heb fod trydan yn gweithio, yn arbennig ym misoedd y gaeaf, mae gennych hanner diwrnod bryd hynny yn does? Nid ydych yn medru gwneud dim o amgylch y tŷ. Mae ar gyfer popeth yn tydi? Eistedd, glanhau, gofalu am eich hunan, eistedd, edrych ar y teledu. Pob math o gyswllt cymdeithasol, cael teulu a ffrindiau i ddod draw."**

Gweithiwr Achos, Gogledd Ddwyrain Cymru

# ASTUDIAETH ACHOS

**Ardal:** Sir Gaerfyrddin

**Oed:** 64

**Meini Prawf Cymhwyster:**

**Yn derbyn budd-daliadau y mae prawf modd arnynt; wedi cofrestru yn anabl; incwm isel; cynilion aelwyd isel**

## Manylion:

Mae Mr Williams yn byw ar ben ei hun yn ei gartref y mae'n berchen arno, ac mae ganddo ganser y prostrad sydd dan reolaeth, cymhlethdodau gydag anaf cefn a phryder. Cysylltodd â Gofal a Thrwsio i gael help gyda nifer o broblemau yn cynnwys boeler gwallus a ffenestr yn y gegin oedd wedi torri ac yn ddrafftiog iawn.

Ar ôl gorffen Gwiriad Cartrefi Iach Gofal a Thrwsio, gwelodd y Swyddog Ynni Cartref fod Mr Williams yn cael anhawster i orffen tasgau dyddiol tebyg i olchi dillad a choginio gan fod ei beiriant golchi a ffwrn yn tripio'r system drydanol yn ei gegin. Hefyd nid oedd nifer o socedi yn gweithio o gwbl.



## Canlyniad:

Defnyddiodd y Swyddog Ynni Cartref gyllid oedd ar gael i drwsio a chael gwasanaeth i'w foeler a gosod ffenestr newydd yn y gegin i wella effeithiolrwydd thermol a chynhesrwydd y tŷ. Defnyddiwyd y cynllun Grant Gwella Trydan i drwsio'r gwaith trydan yn y gegin a gosod socedi trydan ychwanegol i'w gwneud yn fwy hygyrch. Gall Mr Williams yn awr olchi ei ddillad a choginio heb bryderu, yn ogystal â defnyddio offer ychwanegol yn cynnwys ei beiriant microdon.

# ASTUDIAETH ACHOS

**Ardal:** Sir y Fflint

**Oed:** 66

**Meini Prawf Cymhwyster:**

**Yn derbyn budd-dal y mae prawf modd arno; wedi cofrestru yn anabl**

## Manylion:

Daeth Mrs Lewis at Gofal a Thrwsio gan nad oedd ei chawod yn gweithio. Trefnodd Gofal a Thrwsio i drydanwr edrych ar ei chartref ac argymhellodd fod angen cwpwrdd cawod newydd yn ogystal â chawod drydan newydd a gwifro gan nad oedd y gawod bresennol wedi ei gosod yn gywir ac nad oedd yn ddiogel.

Mae Mrs Lewis yn wael iawn gyda chanser yr ysgyfaint ac yn ei chael yn anodd ymdopi oherwydd ei thriniaeth sy'n ei gadael yn flinedig iawn ac yn wan. Fe wnaeth Gofal a Thrwsio hefyd atgyfeirio Mrs Lewis at y gwasanaethau cymdeithasol i edrych ar gael cawod mynediad gwastad wedi ei gosod ond gwrthodwyd hyn.

Am y flwyddyn ddiwethaf bu Mrs Lewis yn gorfod ymolchi wrth y sinc yn ei hystafell ymolchi sy'n ei phoeni ac yn achosi pryder iddi ac yn ychwanegu at ei diffyg hwyliau ac iselder.

Nid oes gan Mrs Lewis unrhyw arian i dalu am ddim o'r gwaith ei hun, a dyna pam y daeth at Gofal a Thrwsio yn y lle cyntaf gan ddweud mai'r cyfan roedd eisiau oedd teimlo'n ddiogel a saff yn ei chartref ei hun.

Mae Mrs Lewis hefyd yn cael profion pellach i weld os yw'r canser wedi lledaenu ac yn bryderus iawn am y dyfodol.



## Canlyniad:

Ar ôl i'r atgyfeiriad at Gwasanaethau Cymdeithasol gael ei wrthod, ymchwiliodd Gweithiwr Achos Gofal a Thrwsio lwybrau cyllid eraill yn seiliedig ar alwedigaeth Mrs Lewis ond nid oeddent yn ateb y meini prawf; roedd yn anodd cael y dogfennau perthnasol ar gyfer cyllid dyngarol gan fod Mrs Lewis yn cael cyfnodau o deimlo'n wael iawn. Mae'r Cynllun Grant Gwella Trydan wedi helpu i dalu am ran o'r gwaith sydd ei angen i wella ansawdd bywyd Mrs Lewis, i fedru cyflawni anghenion glanweithdra sylfaenol a gwella ei diogelwch a llesiant yn ei chartref.

## Cartrefi oer

Drwy ei ddefnydd, mae'r Gronfa wedi dangos sut mae diogelwch trydan yn un darn o'r pos pan ddaw at gefnogi pobl hŷn i fyw gyda gwahanol heriau oedran, afiechyd, anabledd ac incwm isel, i fedru byw'n ddiogel ac annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Mae'r Cynllun Grant Gwella Trydan yn alluogydd pwysig i fynd i'r afael â phroblemau eraill yn y cartref, tebyg i ddiffyg gwres a dŵr poeth neu i alluogi cymorth arall i fynd yn ei flaen lle mae cyllid yn anos i'w sicrhau ar gyfer problemau trwsio a diogelwch yn y cartref.

**"Mae'r bobl yma yn awr yn cael eu gadael mewn cartrefi heb wres na dŵr poeth neu'r ddau ac nid oedd dim llwybr ar gael iddyn nhw mewn gwirionedd heblaw gwneud cais am gyllid darniog drwyddom ni, neu ffynonellau cyllid eraill yn gysylltiedig â'u galwedigaeth neu gyllid elusennol arall. Gall hynny gymryd llawer o amser ac yn arbennig yn y misoedd oerach, gall adael pobl mewn sefyllfaoedd lle mae ganddynt dai oer ac afiach iawn i fyw ynddyn nhw."**

Swyddog Ynni Cartref, Gogledd Cymru



# ASTUDIAETH ACHOS

**Ardal:** Sir Fynwy

**Oed:** 72

**Meini Prawf Cymhwyster:**

**Wedi cofrestru yn anabl; incwm isel; cynilion isel**

## Manylion:

Cafodd Mrs Clarke ei hatgyfeirio at Gofal a Thrwsio drwy ei gweithiwr cymorth yn dilyn marwolaeth sydyn ei gŵr gan y gwelwyd nad oedd ganddi unrhyw wres a bod angen gwella'r gwaith trydan. Mae Mrs Clarke yn byw gyda'i mab. Mae gan y ddau ohonynt broblemau iechyd a dim cynilion. Mae Mrs Clarke yn dal i dalu morgais mawr ar y tŷ.

I ddechrau, nid oedd Mrs Clarke eisiau cwrdd tu mewn i'r tŷ gan ddweud ei fod yn rhy dywyll felly fe wnaeth gweithiwr achos Gofal a Thrwsio gwrdd â hi yn yr ardd. Sefydlwyd y cafodd asesiad dechreuol ar gyfer cyflenwi nwy i'r tŷ a fyddai'n cael ei ariannu drwy grant Wales and West Utilities a roedd cynllun Nyth Llywodraeth Cymru wedi cytuno gosod system wresogi nwy drwy eu grantiau, oherwydd iechyd y cleient. Fodd bynnag, roedd Nyth angen i'r gwaith trydan yn y tŷ i gael ei wella a bod yn ddiogel cyn y gallent symud ymlaen gydag unrhyw waith. Ar hyn o bryd mae Mrs Clarke yn defnyddio dau wresogydd trydan cludadwy ar gyfer gwres o'r ddwy soced drydan sy'n gweithio yn y cartref ac yn berwi tegell i gael dŵr poeth.

Canfu gwiriad Cartrefi Iach Gofal a Thrwsio fod y tŷ angen cael ei ailweirio i gyd a bod llawer o lwydni mewn un o'r ystafelloedd gwely. Yn ychwanegol at hyn, roedd rhai problemau gyda chelcian gan olygu fod angen clirio'r tŷ cyn y gallai'r gwaith ddechrau.



Esboniodd Mrs Clarke ei bod yn dal mewn galar ac na wyddai ble i ddechrau oherwydd fod pethau yn ei llethu.

## Canlyniad:

Gweithiodd y Gweithiwr Achos gyda gweithiwr cymorth Mrs Clarke a SSAFA, elusen y Lluoedd Arfog, i godi arian ar gyfer yr ailweirio. Fe wnaeth y gweithio partneriaeth yma olygu y gallai Mrs Clarke gael y gwaith y mae ei angen wedi ei wneud i wneud ei chartref yn fwy diogel, cynhesach a cael dŵr twym. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer iechyd a llesiant Mrs Clarke wrth iddi hi a'i mab symud ymlaen gyda cham nesaf eu bywydau.

# ASTUDIAETH ACHOS

**Ardal:** Caerdydd

**Oed:** 79

**Meini Prawf Cymhwyster:**

**Wedi cofrestru yn anabl; incwm isel; cynilion isel**

## Manylion:

Mae Mr Advant yn byw yn ei gartref ei hun ac mae angen gwaith cynnal a chadw iddo. Cysylltodd â Gofal a Thrwsio i ddechrau gan nad oes ganddo unrhyw wres na dŵr twym ac nid oedd cynllun Nyth Llywodraeth Cymru wedi medru helpu.

Ymwelodd Gweithiwr Achos Gofal a Thrwsio â Mr Advant a llenwi gwiriad Cartref Iach, gan ganfod nad oedd unrhyw wres na dŵr twym, bod socedi trydan yn hongian o'r waliau ac nad oedd unrhyw socedi trydan yn gweithio lan grisiau. Wrth sgwrsio gyda Mr Advani, clywsant fod ganddo ddwy wyres ifanc sy'n aros gydag ef yn aml, gan godi pryderon diogelwch am y gwifrau agored. Mae'r unig ystafell ymolchi hefyd ar y llawr cyntaf felly mae risg fod Mr Advant yn defnyddio'r ystafell heb unrhyw fath o olau.

Canfu'r gwiriad Cartref Iach hefyd nad oes gan Mr Advani unrhyw fath o ddiogeliad ar ei fwrdd ffiws na switsh trip i ddiogelu rhag cael ei drydaneiddio. Dywedodd trydanwr wrth Gofal a Thrwsio y credai y gallai'r boeler ddechrau gweithio eto pe byddai'r switsh iddo yn cael ei drwsio.



## Canlyniad:

Mae cyllido'r gwaith hwn drwy'r Cynllun Grant Gwella Trydan yn golygu fod cartref Mr Advant yn ddiogel iddo ef a'i ymwelwyr. Mae trwsio'r switshis trydan wedi rhoi golau sy'n ei gwneud yn fwy diogel i Mr Advani symud o amgylch y tŷ ac wedi gostwng y risg y bydd yn syrthio. Bydd y switsh ar gyfer y boeler yn datrys problem dim gwres na dŵr poeth, gan wella cynhesrwydd a llesiant y tŷ.

## Cartrefi gwledig

Roedd y Gronfa ar gael ledled Cymru a chafodd ei defnyddio gan weithwyr achos ar gyfer tai gwledig a threfol. Disgrifiodd gweithwyr achos y wahanol heriau o ffabrig yr adeilad i brinder contractwyr:

> **"Gall waliau carreg mawr achosi problem mewn ffermdai wrth geisio cael offer gosod. Yn gyffredinol, nid oes llawer o gontractwyr yn hoffi gweithio ar garreg oherwydd na allant siasio'r waliau, mae'n anodd a dydyn nhw ddim yn hoffi ei wneud. Mae'n her, ydi."**
>
> Gweithiwr Achos, Gogledd Cymru

> **"Mae'r stoc tai yn hen yng nghefn gwlad y Canolbarth. Maent yn hen adeiladau sy'n eithaf tywyll tu mewn ac mae ganddynt eisoes lawer o broblemau a phryderon am gynnal a chadw. Ac, wrth gwrs, does dim grantiau adnewyddu neu unrhyw beth ar gael nawr i neb ... os oes rhywbeth yn mynd o'i le gyda'r gwaith trydan, mae potensial tân a risg i fywyd."**
>
> Gweithiwr Achos, Canolbarth Cymru

## Symud i deleofal

Cafodd trosglwyddo digidol pob system ffôn a theleofal o analog i ddigidol eisoes ei ohirio o fis Rhagfyr 2025 i fis Ionawr 2027 oherwydd pryderon ar effaith y newid ar gwsmeriaid hen a bregus.

Mae tua 77,000 o bobl yn defnyddio teleofal yng Nghymru, gyda chyfartaledd oedran o 86. Fe wnaeth 74% o'r gwaith a wnaed drwy'r Cynllun Grant Gwella Trydan helpu i wella neu alluogi gwaith trydan o safon modern a dibynadwy yng nghartrefi pobl hŷn ar draws Cymru. Mae'r newid i ddigidol yn golygu fod angen rhyngrwyd da yn y tŷ a hefyd gyflenwad trydan dibynadwy i bweru unedau hunan gynwysedig sydd ag oes batri cyfyngedig. Mae hyn yn achosi risg sylweddol i bobl hŷn a allai, heb help i wella eu gwaith trydan a gosod systemau teleofal digidol, ganfod fod eu cefnogaeth i aros yn annibynnol yn hollol lythrennol wedi gael ei droi i ffwrdd.

## Cefnogi pobl hŷn sydd â chyflyrau iechyd

Mae'r gronfa wedi cefnogi pobl hŷn sy'n byw gyda chyflwr iechyd tebyg i ganser, clefyd anadlol a chardiofasgwlaidd, arthritis a'r llu o gyflyrau a gaiff eu galw yn 'eiddilwch'.

- Roedd 71% o bobl a derbyniodd gymorth drwy'r Cynllun Grant Gwella Trydan wedi cofrestru yn anabl.
- Dywedodd 29% o bobl a dderbyniodd gymorth drwy'r Cynllun Grant Gwella Trydan wrthym eu bod yn byw gyda cholled synhwyraidd.
- Dim ond 16% o bobl a gafodd fynediad i'r Cynllun nad oedd wedi cofrestru'n anabl neu'n byw gyda cholled synhwyraidd. Roedd rhai pobl yn ticio'r ddau flwch.

# ASTUDIAETH ACHOS

**Ardal:** Caerdydd

**Oed:** 63

**Meini Prawf Cymhwyster:**

**Wedi cofrestru yn anabl; incwm isel; cynilion isel**

## Manylion:

Cafodd Mr Owen ddiagnosis o sglerosis ymledol dros 25 mlynedd yn ôl. Mae'n ymdopi'n dda gyda chymorth ei bartner. Mae bellach yn dibynnu ar gadair olwyn a chafodd ei gartref ei addasu wrth i'r symptomau waethygu. Lifft trwodd i'r llawr cyntaf yw'r addasiad diwethaf i'w gartref. Mae'r cwpl wedi defnyddio eu cynilion i wneud eu cartref yn addas i gadair olwyn ac mae eu cynilion wedi dod i ben – ni all partner Mr Owen weithio llawer o oriau oherwydd ei chyfrifoldebau gofalu felly mae eu hincwm wedi gostwng. Roedd rhai problemau trydan oedd angen eu diweddaru er mwyn i Mr Owen fedru aros mor annibynnol ag oedd modd.

Cafodd system mynediad drws blaen ei gosod sy'n gweithio o'r ffôn llinell daear. Roedd y soced y plwg lle mae Mr Owen yn eistedd mewn cyflwr gwael iawn ac angen gosod un newydd fel y gellir plygio'r uned ffôn ac y gall Mr Owen ei weithio pan mae gartref ar ben ei hun.

I fynd i mewn ac allan o'u cartref, mae'n rhaid i Mr Owen ddefnyddio'r drws cefn lle mae ramp. Mae hyn yn dywyll ac mae angen goleuadau iddo ei ddefnyddio'n ddiogel. Ar hyn o bryd mae'n taro mewn i bethau ac mewn risg o anafu ei hun.

Mae gan Mr Owen gi gwaith ac mae angen mynd ag ef am dro. Mae Mr Owen yn gwneud hyn yn defnyddio ei gadair olwyn drydan; ni fyddai'n medru gwneud hyn yn annibynnol heb gael goleuadau.

## Canlyniad:

Mae gosod soced plwg newydd yn ymyl ei gadair yn golygu nad yw Mr Owen yn gorfod symud o'r gadair godi i'r gadair olwyn i fynd at y drws. Bydd hyn yn gostwng ei risg o syrthio ac yn golygu y bydd yn colli llai o bobl sy'n galw. Mae gosod golau yn hanfodol i ddiogelwch Mr Owen wrth fynd i mewn ac allan o'r tŷ, yn arbennig ym misoedd y gaeaf ac mae'n golygu y gall gadw ei annibyniaeth a pharhau i fedru gadael y tŷ i fynd â'r ci am dro a chymryd rhan yn ei gymuned.



# ADRAN NESAF EFFAITH GWAITH TRYDAN GWAEL AR NODAU POLISI EHANGACH

## Tai digonol

Mae'r Deyrnas Unedig eisoes wedi llofnodi'r Confensiwn Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, sy'n cynnwys yr hawl i gartref digonol yn seiliedig ar sicrwydd daliadaeth, argaeledd gwasanaethau, fforddiadwyedd, cyflwr digonol, hygyrchedd, lleoliad a digonolrwydd diwylliannol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i Bapur Gwyn yn ymchwilio cyflwyno Hawl i Gartref Digonol sydd wedi'i sefydlu yng nghyfraith Cymru.

Mae gwaith trydan diogel yn rhan hanfodol o sicrhau y gall pawb yng Nghymru fyw mewn cartref digonol beth bynnag yw math y ddaliadaeth. Drwy'r adroddiad hwn, dangosodd y Cynllun Grant Gwella Trydan y gall gwaith trydan peryglus ac mewn cyflwr gwael arwain at i bobl hŷn orfod byw mewn cartrefi oer, tywyll a pheryglus.

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Mae hygyrchedd yn rhan allweddol o ddigonolrwydd tai. Esboniodd gweithwyr achos Gofal a Thrwsio hefyd fod cael gwaith trydan ansawdd da, diogel a modern yn hanfodol i gefnogi hygyrchedd tai a sicrhau y gall darpariaeth addasiadau statudol tebyg i'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl fynd ymlaen heb oedi,

> **"Gofynnir i ni hefyd wneud gwaith trydan mewn cartrefi ar gyfer pethau fel y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, lle daeth y cyngor atom neu bod y cyngor wedi atgyfeirio cleientiaid atom. Yn sylfaenol, maen nhw+ wedi medru cael y Grant Cyfleusterau i'r Anabl, ond wedyn mae'r contractwyr yn mynd allan a dweud na fedrant roi unrhyw beth trydanol i mewn oherwydd nad yw'r gwaith trydan lan i'r safon."**
>
> Gweithiwr Achos, De Cymru

Mae gwaith trydan da yn cefnogi pobl yng Nghymru i gael y gofal mae ganddynt hawl iddo yn nes at eu cartrefi, i gynnal ansawdd bywyd da a gostwng neu oedi'r angen am ofal a chymorth tymor hirach.



## Datgarboneiddio cartrefi Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod ei gyfeiriad teithio i ddatgarboneiddio cartrefi Cymru drwy symud ymaith o danwydd ffosil i wresogi cartrefi yng Nghymru i ffynonellau gwres cynaliadwy. Bydd mwy o ddibyniaeth ar systemau gwresogi a gaiff eu pweru gan drydan yn hytrach na nwy; bydd gwaith trydan diogel a all ymdopi gyda gofynion gwresogi cartref yn hanfodol i'r daith yma.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae gwella'r stoc tai drwy uwchraddio diogelwch trydan yn diogelu cenedlaethau cyfredol a dyfodol, gan sicrhau fod cartrefi yn gydnerth i newidiadau mewn hinsawdd ac y gallant addasu i'r newidiadau yn anghenion pobl wrth iddynt heneiddio.

# ARGYMHELLION POLISI

## 1. Gwiriadau diogelwch trydanol am ddim ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru

**Credwn y dylai pobl hŷn yng Nghymru fod yn gymwys am wiriadau diogelwch trydan am ddim bob pum mlynedd yn eu cartref, a gyflwynir gan gontractwyr lleol a dibynadwy.**

## 2. Grant rhwyd ddiogelwch ar gyfer tai mewn cyflwr difrifol wael

**Mae'n anodd cyllido gwaith trydan gwallus, maent angen sgiliau arbenigol ac maent yn aml yn rhwystr i welliannau cartref ychwanegol sy'n cefnogi iechyd a llesiant. Rydym yn galw am grantiau rhwyd ddiogelwch ar gyfer tai mewn cyflwr difrifol lle mae risg i iechyd dynol ac unioni unrhyw broblemau a gaiff eu darganfod drwy wiriad diogelwch trydan am ddim.**

## 3. Gwaith trydan sy'n rhan o'r Rhaglen Cartrefi Cynnes

**Mae'r rhaglen Cartrefi Cynnes yn rhoi cymorth i berchnogion tai ar incwm isel a rhai sy'n byw gyda chyflyrau iechyd i wella graddiad EPC eu cartref drwy osod gwelliannau cartref. Mae'n rhaid cynnwys uwchraddio gwaith trydan i alluogi gosod ffynonellau gwresogi cynaliadwy dan fersiwn newydd y Rhaglen Cartrefi Cynnes.**

## 4. Ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch trydan

**Cyflwynir drwy ddulliau cyfathrebu ar-lein a heb fod ar-lein, i sicrhau fod pob person hŷn yng Nghymru yn gwybod am bwysigrwydd diogelwch trydanol ble i fynd i gael cymorth arbenigol.**


**I gysylltu â'ch Asiantaeth Gofal a Thrwsio Leol**

**0300 111 3333**

**Care & Repair Cymru**

**02920 107580**

**www.careandrepair.org.uk**

**enquiries@careandrepair.org.uk**

Llawr 1af, Mariners House
Trident Court, Heol East Moors
Caerdydd CF24 5TD


Mae Care & Repair Cymru wedi cofrestru fel elusen (Rhif 1163542) ac mae'n gwmni cyfyngedig drwy warant (Rhif 09574555).